

Archwilio Pam

Menora



Fersiwn Estynedig

Archwilio Pam

Menora

Tania ap Siôn a Leslie J Francis
Darluniwyd gan Phillip Vernon



Bear Lands Publishing

Aled a Siân

Mae Aled a Siân wrth eu bodd yn archwilio'r mannau lle maen nhw'n byw a'r mannau y maen nhw'n mynd i ymweld â nhw. Maen nhw'n mwynhau chwarae 'Dw i'n gweld â'm llygad bach i' er mwyn eu helpu i ddod i adnabod y mannau hyn yn well. Yn y gyfres *Archwilio Pam*, mae Aled a Siân yn chwilfrydig ac eisiau gwybod pam fod rhai o'r pethau o'u cwrpas yn bwysig i'w ffrindiau Cristnogol, Iddewig a Mwslimaidd.

Mae'r gyfres yn cymryd arwyddocâd cymdeithasol crefydd o ddifrif, ac mae'n seiliedig ar ymchwil helaeth i sut mae plant yn dysgu amdany'n nhw eu hunain, am bobl eraill, ac am y byd maen nhw'n byw ynddo.

I ategu'r gyfres hon o lyfrau stori, mae amrywiaeth eang o adnoddau ar gyfer plant ac athrawon, y gellir eu llwytho i lawr am ddim, ac maen nhw ar gael ar hwb.wales.gov.uk/Adnoddau a st-marys-centre.org.uk

Mae'r llyfrau stori a'r gweithgareddau wedi'u hanelu at blant 5 - 7 mlwydd oed, ond mae'r adnoddau sy'n bosib eu llwytho i lawr yn gwneud y gyfres yn berthnasol i blant iau a phlant hŷn hefyd.

Cyhoeddwyd gan Bear Lands Publishing, Canolfan y Santes Fair, Llys Onnen, Abergwyngregyn, Gwynedd, LL33 0LD, Wales.

Hawlfraint © Tania ap Siôn a Leslie J Francis (testun), Phillip Vernon (darluniau).

Mae Tania ap Siôn, Leslie J Francis, a Phillip Vernon wedi mynnu eu hawl o dan Ddeddf Hawlfraint, Dyluniadau a Phatentau 1988, i gael eu nodi fel awduron y gwaith hwn.

Cyfieithwyd gan Nant Roberts.

Cedwir pob hawl. Ni chaniateir i unrhyw ran o'r cyhoeddiad hwn gael ei atgynhyrchu, na'i gadw mewn cyfundrefn adferadwy, na'i drosglwyddo mewn unrhyw ddull na thrwy unrhyw gyfrwng, electronig, electrostatig, tâp magnetig, mecanyddol, ffotogopïo, recordio, nac fel arall, heb ganiatâd llawn Bear Lands Publishing a deiliaid yr Hawlfraint.

Cyhoeddwyd gyntaf 2016.

Noddir gan Lywodraeth Cymru.

Teitlau'r gyfres *Archwilio Pam* yw:

Bara
Croes
Goleuni
Menora
Fêl
Dŵr
Symbolau Ffydd





Mae Aled a Siân wrth eu bodd yn archwilio'r ardal maen nhw'n byw ynddi a'r lleoedd maen nhw'n ymweld â nhw. Maen nhw'n mwynhau chwarae 'Dw i'n gweld â'm llygad bach i', er mwyn eu helpu

i ddod i adnabod y lleoedd hyn yn well. Heddiw, fe welon nhw lun menora mewn llyfr, ac yna fe fuon nhw'n ceisio gweld sawl menora arall y gallen nhw ddod o hyd iddo, a ble.



Cerddodd Aled a Siân i lawr y stryd. Fe wnaethon nhw gerdded heibio tai a byngalos. Fe wnaethon nhw gerdded heibio fflatiau a charafanau. Yna, fe

wnaethon nhw aros y tu allan i Gafé Rebecca, ac edrych drwy'r ffenestr. Fe welon nhw'r byrddau a'r cadeiriau, ac yna, fe welon nhw rywbeth arall.



Yno, ar y silff ben tân, fe welon nhw gardiau post a ffotograffau teuluol gyda phob person yn gwenu. “Dw i’n gweld â’m llygad bach i – menora,” gwaeddodd Aled. Pwyntiodd at fenora Hanukkah

mawr wedi’i wneud o bres, gyda naw cangen iddo. Roedd cardiau lliwgar o amgylch y menora gyda chyfarchion Hanukkah hapus arnyn nhw. “Tybed pam mae’r menora mor bwysig?” gofynnodd Siân.



Aeth Aled a Siân ymlaen ar eu taith heibio'r orsaf dân, nes cyrraedd y cae chwarae. Yn y cae chwarae fe welon nhw wraig oedrannus yn mynd â chi bach

du am dro. Fe welon nhw ferch fach yn cael ei siglo ar y siglen gan ei thad. Fe welon nhw blant yn chwarae gêm ar y ffrâm ddringo.




Yna, yng nghanol yr holl bobl, fe welodd Aled a Siân ferch ifanc yn gwisgo cadwyn o amgylch ei gwddf a menora arian arni. “Dw i’n gweld â’m llygad bach i – menora,” meddai Siân. Roedd

pelydrau’r haul ar y menora yn gwneud iddo ddisgleirio. Edrychodd y ddau ar y gadwyn a chyfrif saith cangen ar y menora. “Tybed pam mae’r menora mor bwysig?” gofynnodd Aled.



Aeth Aled a Siân ymlaen ar eu taith allan o'r cae chwarae. Fe wnaethon nhw gerdded heibio neuadd y band lle clywon nhw'r band pres yn ymarfer. Fe wnaethon nhw gerdded heibio'r blwch

postio coch lle roedd dyn yn postio llythyr. Yna, fe wnaethon nhw aros wrth y fynwent lldewig. Yno, fe wnaethon nhw aros i edrych ar y cerrig beddau.



Yno, ar garreg fedd yn y fynwent, fe welon nhw Seren Dafydd gyda llythrennau Hebraeg wedi'u cerfio wrth ochr y seren ac o dan y seren. Yno, yn y fynwent, fe welon nhw gerrig bach wedi'u gosod ar garreg fedd. "Dw i'n gweld â'm llygad bach i –

menora," meddai Aled. Yn y fynwent roedd menora gyda saith cangen iddo wedi'i gerfio yn y garreg. "Tybed pam mae'r menora mor bwysig?" gofynnodd Siân.



Wedi iddyn nhw orffen edrych o gwmpas y fynwent Iddewig, aeth Aled a Siân ymlaen ar eu taith ar hyd y stryd. Fe wnaethon nhw gerdded heibio siop trefnwyr teithiau. Roedd gwyliau ar werth yno i

wahanol leoedd o amgylch y byd. Yna, fe wnaethon nhw aros wrth y siop gerdd. Fe welon nhw ferch fach yn pwyntio at rywbeth yn y ffenestr.




Syllodd Aled a Siân ar yr arddangosfa yn y ffenestr. Roedd lluniau o gerddorfeydd a bandiau. Roedd feiolin a gitâr wedi'u gosod ar stand. "Dw i'n gweld â'm llygad bach i – menora," meddai

Siân. Yno, rhwng y lluniau a'r offerynnau, fe welon nhw lun menora ar glawr cryno ddisg, gyda saith cangen iddo. "Tybed pam mae'r menora mor bwysig?" gofynnodd Aled.



Wedi iddyn nhw orffen edrych drwy ffenestr y siop gerdd, cerddodd Aled a Siân yn ôl heibio'r parc a'r cae chwarae, heibio cofeb y rhyfel, a heibio'r

garej. Yna, fe ddaethon nhw at dŷ eu ffrindiau Nathan a Rachel. Maen nhw'n byw yno gyda'u mam a'u tad a'u nain.



Arhosodd y ddau i'w ffrindiau agor y drws. Edrychodd Aled a Siân ar y bocs bach petryal a oedd wedi'i osod ar ffrâm y drws, ac yna fe wnaethon nhw edrych i mewn trwy'r ffenestr i'r

ystafell fwyta. "Dw i'n gweld â'm llygad bach i – menora," meddai Aled. Yno, ar y silff ffenestr roedd menora Hanukkah, gyda naw cangen iddo. "Tybed pam mae'r menora mor bwysig?" gofynnodd Siân.



Aeth Nathan a Rachel ag Aled a Siân i'r synagog fawr yn ymyl eu cartref. Cerddodd y pedwar i mewn trwy'r drws ffrynt mawr. Cyffyrddodd Aled a Siân bren llyfn y drws a'r handlen oer. Yna, fe wnaethon

nhw gerdded i mewn i ystafell fawr. Fe welon nhw resi o seddau lle roedd pobl yn eistedd yn ystod gwasanaeth.



Arweiniodd Nathan a Rachel Aled a Siân at un o waliau'r synagog. Yno, fe welon nhw ffenestri gwydr lliw hardd a lliwgar iawn. "Dw i'n gweld â'm llygad bach i – menorah," meddai Siân. Yno, uwch

eu pennau fe welon nhw lun menorah gyda saith cangen iddo a saith fflam. "Tybed pam mae'r menorah mor bwysig?" gofynnodd Aled.



Wedi iddyn nhw orffen edrych ar y menora gwydr lliw, aeth Nathan a Rachel ag Aled a Siân i flaen y synagog. Fe wnaethon nhw bwyntio at Arch y Torah, a oedd yn edrych fel cwpwrdd mawr. Fe

wnaethon nhw bwyntio at ddrysau yr arch a oedd ar gau ac at y llenni. Yna, fe ddechreuodd Nathan a Rachel egluro pam mae'r menora mor bwysig i'w teulu.



Agorodd Nathan a Rachel ddrysau'r arch a thynnu'r llenni'n ôl. Fe wnaethon nhw ddangos gorchudd sgrôl y Torah i Aled a Siân gyda llun brodwaith o fenora gyda saith cangen iddo. Fe

wnaethon nhw ddangos lamp wedi'i goleuo o flaen yr arch. "Yn y Deml yn Jerwsalem mae golau'r menora yn arwydd bod Duw'n bresennol gyda ni," meddai Nathan.



Wedi iddyn nhw gau drysau'r arch, aeth Nathan a Rachel ag Aled a Siân yn ôl gyda nhw i'w cartref. Yno, fe welon nhw'r Talmud a oedd yn eiddo i nain Nathan a Rachel. Fe ddechreuodd Nathan a

Rachel ddweud stori wrth Aled a Siân am frwydr a fu rhwng yr Iddewon a'r Groegiaid, amser maith yn ôl, yn Jerwsalem.




Clywodd Aled a Siân sut gwnaeth y Brenin Antiochus ladd rhai pobl Iddewig a mynnu bod yr Iddewon yn stopio dilyn gorchmynion Duw. Fe

glywon nhw sut newidiodd y Brenin Antiochus y Deml yn Jerwsalem, ei gwneud yn aflan, ac adeiladu allor yno i'r Duw Groegaidd, Zeus.



Roedd offeiriad Iddewig o'r enw Matathias a'i fab, Judas Macabeus, yn gwrthod ufuddhau i gyfraith ofnadwy y Brenin. Fe wnaethon nhw arwain grŵp o wrthryfelwyr, a wnaeth ymladd yn ddewr dros

ryddid i'r bobl gael dilyn eu ffordd Iddewig o fyw. Cyn bo hir, cafodd byddinoedd y Brenin eu trechu ac aeth y gwrthryfelwyr i mewn i'r Deml yn Jerwsalem.



Clywodd Aled a Siân sut cafodd y Deml ei glanhau, ac fe adeiladwyd allor newydd yno i addoli Duw. Fe glywon nhw hefyd nad oedd digon

o olew gan y bobl i gadw'r menora i oleuo, ond fe gadwodd Duw'r menora i oleuo am 8 diwrnod nes y cafodd olew newydd ei baratoi.



Aeth Nathan a Rachel ag Aled a Siân i weld eu menora Hanukkah ar y silff ffenestr. Roedd yr awyr y tu allan yn tywyllu wrth iddi nosi. Gwrandawodd Aled a Siân ar Nathan a Rachel yn adrodd

bendith, ac yn diolch i Dduw. Gwylodd Aled a Siân nhw'n goleuo'r canhwyllau, gan symud yn araf o'r ochr chwith i'r ochr dde.



Ar bob un o wyth noson y Hanukkah, roedd Nathan a Rachel yn goleuo kannwyll newydd. Roedden nhw'n cofio ac yn diolch am yr holl

wyrthiau a wnaeth Duw ar ran eu pobl. Roedden nhw'n cofio ac yn diolch hefyd am y golau a oedd yn dweud bod Duw gyda nhw heddiw.



Wrth i Aled a Siân ymadael â chartref Nathan a Rachel, trodd y ddau i godi llaw i ffarwelio. Edrychodd y ddau ar fflamau'r menora Hanukkah yn y ffenestr. Roedd yn disgleirio'n llachar ac yn

llawn croeso yn y tywyllwch. "Nawr, rydyn ni'n gwybod pam mae'r menora mor bwysig!" meddai Aled a Siân gyda'i gilydd.



Mae Aled a Siân yn chwarae ‘Dw i’n gweld â’m llygad bach i’, a heddiw maen nhw’n chwilio am ganwyllbrennau ‘menora’. Maen nhw’n dod o hyd i ganwyllbrennau menora mewn pob math o leoedd o gwmpas ble maen nhw’n byw. Pan fydd Aled a Siân yn ymweld â’u ffrindiau, Nathan a Rachel, maen nhw’n dechrau gofyn cwestiwn pwysig – “Tybed pam mae’r menora mor bwysig?” Gyda help Nathan a Rachel, mae Aled a Siân yn dechrau dod o hyd i rai atebion.



Bear Lands Publishing